# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 17eg o Fedi 2018 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Peter Parker, Griffith Evan Thomas

Bu i'r Cyngor gydymdeimlo gyda'r Cynghorydd Alan Jones ar ei brofedigaeth ddiweddar.
Penderfynwyd i anfon cardiau at y Cynghorwyr Peter Parker a Griffith Evan Thomas er mwyn dymuno gwellhad buan i'r ddau.
Penderfynwyd i anfon cerdyn at Manon Steffan Ross yn Nhywyn er mwyn ei llongyfarch ar ennill wobr yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cynghorydd ddatgan buddiant.

3. Mr Andy Roland - Cynnwys Bryncrug ym Miosffer Dyfi:

Croesawyd Mr Andy Roland i'r cyfarfod, a derbyniwyd gwybodaeth am y posibilrwydd o gynnwys ardal Dysynni ym Miosffer Dyfi. Cafwyd wybod:

- Bod EcoDyfi yn gorff annibynnol sydd yn gweithio yn yr ardal ers 1998
- Bod statws UNESCO ar Biosffer Dyfi
- Y Biosffer yn 840km2, yn cynnwys Aberdyfi, Aberystwyth, Siroedd Gwynedd, Ceredigion a Phowys, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Y Biosffer yn anelu at cysylltu pobl a byd natur, treftadaeth diwylliannol ac yn cryfhau'r economi – cynnwys cymdeithas, diwylliant a'r economi – nid amgylchedd yn unig
- Gwahanol parthau yn bodoli, yn cynnwys ardaloedd bioamrywiaeth o bwysigrwydd Ewropeaidd
- Buddion posib yn cynnwys codi proffil yr ardal i ymwelwyr, denu buddsoddiad, cynyddu y nifer sy'n gwirfoddoli, creu ffocws i ddiwydiant ymwelwr cynaliadwy
- Cafwyd wybod bod y bartneriaeth sy'n gyfrifol am y biosffer pob 10 mlynedd yn cynnal adolygiad, a gofynnwyd y cwestiwn ynglŷn a ffiniau'r biosffer. Yr oedd Cyngor Tref Tywyn eisoes wedi datgan diddordeb mewn bod yn rhan o'r biosffer, gyda Llanfihangel –y-Pennant heb ddatgan cefnogaeth.
- Nid oedd gofyn am gyfraniad ariannol gan Gynghorau Cymuned ond efallai y bydd y bartneriaeth yn y dyfodol yn gofyn am rhodd.
- Amserlen cadarnhau y ffiniau yw Medi 2019, adeg hynny bydd yn rhaid adrodd i UNESCO. Y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio ar y ffiniau, a bydd angen gadael i CNC wybod barn Cygor Cymuned Bryncrug erbyn mis Mawrth 2019 ar yr hwyraf.

**PENDERFYNIAD:** I ddiolch i Mr Roland am y cyflwyniad.
I gynnwys Biosffer Dyfi ar agenda mis canlynol, sef Hydref 2018.

4. Derbyn cofnodion 16 Gorffennaf 2018:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.
Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd parthed arwydd Cefn Coed fel mater o frys.
I ddiolch i'r Clerc am baratoi erthygl i Dail Dysynni ynglŷn a phenderfyniad y cyngor i achub y Clwb Ieuenctid yn y pentref.

5. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101622 | £357.04 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101623 | £89.40 |
| Middleton Glass | Pafiliwn | 101624 | £62.40 |
| Y Ganolfan | Llogi yst | 101625 | £36.00 |
| Dŵr Cymru | Dŵr | 101626 | £117.86 |
| Swyddfa Archwilio Cym | Cyfrifon 2016/17 | 101627 | £285.30 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Jones & Jones | Pentref | 101628 | £210.60 |
| Morris & Bates | Cyfreithiol | 101629 | £70.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau.

6. Cais ariannol - Marie Curie:

**PENDERFYNIAD:** I adael ar y Bwrdd.

7. Dail Dysynni - Llythyr o ddiolch:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

8. Morris & Bates Cyfreithwyr - Cofrestru Pympiau Hanesyddol:

Yr oedd Morris & Bates wedi paratoi datganiad er mwyn i Gyngor Cymuned Bryncrug gofrestru y pympiau o dan "adverse possession". Cafwyd wybod bod y pwmp a'r ardd fach eisoes wedi ei gofrestru i'r cyngor.

**PENDERFYNIAD:** I symud ymlaen gyda'r broses o gofrestru'r pympiau.
I dalu ffioedd cofrestru oddeutu £70, gan ystyried gosod ffens o amgylch y pympiau wedi i'r cyngor eu cofrestru.
I ganfod dyddiad sefydlu'r Cyngor yn yr 80'au, fel dyddiad cychwyn gofalu am y pympiau.
I ofyn wrth Morris & Bates am fap sydd yn dangos ffin yr ardd fach.

9. Grŵp Cynefin - Adroddiad Blynyddol 2017/18:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

10. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Dyddiadau i'r Dyddiadur - Nosweithiau'r Awdurdod - Hydref 2018):

**PENDERFYNIAD:** Y Cynghorwyr Richard Evans a Bethan Lawton i fynychu'r cyfarfod yn Aberdyfi ar ran y cyngor.

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Arfryn, 24 Y Groesffordd, Bryncrug, LL36 9RP (NP5/55/318):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

12. Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - arwydd llwybr beicio Lon Dysynni:

Derbyniwyd llythyr gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol mewn ymateb i lythyr gan Gyngor Cymuned Bryncrug, yn adrodd nad oedd yr arwydd yn gyfrifoldeb i'r adran, a felly nid yw'r adran mewn sefyllfa i lanhau a gofalu am yr arwydd.

Cafwyd wybod gan y Cynghorydd Bethan Lawton ei bod wedi torri'r Eiddew o amgylch yr arwydd ac wedi ei lanhau dros yr haf.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan Gyngor Gwynedd ac i ddiolch i'r Cynghorydd Bethan Lawton.

13. Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Rhaglen Waith Awst a Medi 2018:

**PENDERFYNIAD:** Hysbysu Liz Haynes, Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd bod pyst ar giatiau newydd a osodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi torri.

14. Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Biniau Halen:

Derbyniwyd llythyr yn dweud y byddai Cyngor Gwynedd fel rhan o'r rhaglen arbedion yn casglu biniau halen o phob cymuned sydd ddim yn cyfrannu tuag at eu llenwi.

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn gofyn am restr o'r biniau halen sydd ym Mryncrug.

15. Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys giatiau:

**PENDERFYNIAD:** I ohirio yr eitem am fis, gan ei gynnwys ar agenda mis Hydref 2018

16. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Adroddwyd bod ymdrech Cyngor Gwynedd i ddenu ceisiadau i'r swyddi wedi bod yn aflwyddiannus a bod angen ail-hysbysebu.

**PENDERFYNIAD:** Y Cynghorydd Bethan Lawton i eistedd ar y panel cyfweld.
I brynu bocs arian er mwyn cadw cyfraniadau, sydd i'w ddefnyddio yn unol â dymuniad y clwb.

17. Cae Chwarae - Adroddiad:

Yr oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Uned Eiddo Cyngor Gwynedd parthed y trosglwyddiad rai blynyddoedd yn ôl, o Gyngor Gwynedd i Gyngor Cymuned Bryncrug. Pe byddai Cyngor Cymuned Bryncrug yn dewis trosglwyddo i elusen, byddai'r telerau a roddwyd gan Gyngor Gwynedd hefyd yn trosglwyddo.

**PENDERFYNIAD:** I gael cyngor cyfreithiol ynglŷn a trosglwyddo'r cae chwarae i elusen.
I gysylltu gyda Phwyllgor y Ganolfan parthed clo i'r storfa sydd wedi torri, gan ofyn iddynt ei atgyweirio.
I drafod dyfynbrisiau i atgyweirio'r Pafiliwn y mis canlynol, er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i ddyfynbrisiau ddod i law, gan gysylltu gyda Kevin Ellis, 14 Maes y Grug.

18. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- Wedi cyfarfod gyda dwy ddynes sydd wedi ffurfio grŵp er mwyn ceisio cael gwelliannau i'r B4405 o Dywyn tuag at Minffordd. Y Cynghorydd am gefnogi'r ymdrech drwy ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn cael atebion.
- Wedi mynychu cyfarfod Ardal Meirionnydd. Yr Heddlu yn bresennol, gyda'r Arolygydd Gethin Jones wedi symud i ardal arall, a'r Arolygydd Matt Geddes yn ei le. Mwy o bwyslais yn cael ei roi gan yr Heddlu ar unigolion bregus yn hytrach na lladrata. Y dylid cysylltu gyda'r Heddlu drwy yr Heddweision Cymunedol, neu drwy ffonio 101, neu 999 mewn argyfwng. Heddlu Gogledd Cymru yn cydweithio gyda Heddlu Dyfed Powys e.e. digwyddiadau ar y ffin ac yn defnyddio technoleg fel drones i fonitro beicwyr modur yng nghoedwig Dyfi. Y fan "Go Safe" am fod o gwmpas pentref Abergynolwyn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

19. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Codwyd mater gan Gynghorydd, sef ceir yn parcio ar Ffordd y Felin ac yn creu rhwystr. Adroddwyd bod damweiniau wedi bod, a loriau fel loriau ysbwriel methu mynd heibio.

**PENDERFYNIAD:** I ddatgan gwerthfawrogiad y cyngor i'r ymdrech sydd yn cael ei roi gan sawl unigolyn yn y pentref i gynnal gweithgareddau fel y Carnifal a'r Ffair Wledig. Gyda'r ddau digwyddiad wedi bod yn llwyddiant eto eleni.
I drafod y sefyllfa parcio gyda'r Heddlu yng nghyfarfod Hydref 2018.
I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn os oes modd cynnwys Bryncrug yn y rhestr o doiledau sydd yn cael eu adnewyddu, fel a welir yn Newyddion Gwynedd.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:50pm

Llofnod y Cadeirydd ...........................................................